



Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau.

Digwyddiad Rhwydweithio Rhaglen Weithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Blaenoriaethau 1 & 3

Yn dilyn digwyddiad llwyddiannus rhwydwaith Blaenoriaeth 1 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ym mis Mehefin 2019 ym Mhrifysgol Caerdydd, mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol y De-orllewin a Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol y De-ddwyrain wedi trefnu digwyddiad tebyg yn rhanbarth De-orllewin Cymru.

Cynhelir y digwyddiad **ddydd lau 5 Mawrth yn ystafell ddosbarth Actif, Campws y Bae Prifysgol Abertawe.**

Yn ystod y bore bydd arweinwyr prosiect, partneriaid a siaradwyr gwadd yn trafod arferion gorau a'r cyllid sydd ar gael at ddibenion ymchwil. Ymhlith y prif siaradwyr fydd Jon Wood o Innovate UK, a fydd yn cyflwyno ar Strengths in Places Fund ac Emma Morris o CCAUC/HEFCW, a fydd yn darparu amlinelliad ar Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru.

Bydd hwn yn gyfle rhwydweithio na ellir ei golli i brosiectau ym Mlaenoriaeth 1 a 3 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Gallant rannu a dysgu arferion gorau yn ystod y drafodaeth grŵp, ac yn dilyn hynny bydd taith o Brosiect SEPCIFIC gan y Cyfarwyddwr Technoleg Justin Searle.

Canolfan Arloesedd a Gwybodaeth yw SPECIFIC sy'n cael ei harwain gan Brifysgol Abertawe. Mae'n datblygu cysyniad newydd ar gyfer adeiladau'r dyfodol – 'Adeiladau Actif' – sy'n defnyddio ynni solar i gynhyrchu gwres a thrydan o amlen adeilad, a storio'r ynni hwn mewn batris a storfeydd thermol i'w ddefnyddio yn yr adeilad.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dod i'r digwyddiad, cysylltwch â'r tîm swanseabayret@sirgar.gov.uk

Morganstone yn cynnal lleoliad gwaith i unigolyn o Cam Nesa leuencid Sir Benfro

Mae'r darparwr gwasanaethau adeiladu, Morganstone, wedi cynnig cyfle i'r briciwr dan hyfforddiant, Adam Paddick, sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar safle yn Heol Thornton, Aberdaugleddau yn rhan o'i leoliad gwaith gyda Cam Nesa leuencid Sir Benfro.

Mae'r datblygiad tai, sy'n cynnwys 59 o unedau, yn cael ei adeiladu gan Morganstone ar gyfer y cleient, Grŵp ATEB (Cymdeithas Dai Sir Benfro gynt). Mae Grŵp ATEB yn canolbwyntio ar gyflenwi cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel i gymunedau gwledig a threfol. Un o weledigaethau ATEB yw cefnogi cymunedau i fod yn hunangynhaliol. Mae lleoliad Adam yn ein datblygiad yn Heol Thornton yn cefnogi'r weledigaeth hon, ac mae'n gallu cael profiad gwaith yn lleol.

Mae Cam Nesa yn brosiect gwerth £5.7 miliwn a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac sy'n gweithio gydag unigolion rhwng 16 a 24 oed yng Ngorllewin Cymru trwy ddarparu amrywiaeth o weithdai a chyfleoedd cyflogaeth ar eu cyfer, yn ogystal â chymorth personol wedi'i deilwra ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant ar hyn o bryd.

Mae'r prosiect hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgymryd â chysiau Arweinyddiaeth Chwaraeon a chysiau achrededig eraill. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Penfro a'i gyflwyno mewn partneriaeth â chyd-awdurdodau lleol.

Paul Falzon o Sgiliau Adeiladu Cyfle, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Morganstone a Cam Nesa, fel ei gilydd, a gyflwynodd Adam i Morganstone yn y lle cyntaf. Mae Sgiliau Adeiladu Cyfle yn Gynllun Prentisiaeth a Rennir Rhanbarthol sydd wedi ennill llawer o wobrau, ac sydd ar hyn o bryd yn cyflogi dros 140 o brentisiaid ac wedi cyflogi dros 500 o brentisiaid a rennir hyd yma.

Er mis Hydref, mae Adam wedi cael ei fentora ar y safle gan Steve Hazelby o SS Construction, sy'n llawn edmygedd o'i gynnydd hyd yma. Yn ogystal â dysgu sut i fod yn friciwr, mae Adam hefyd wedi meithrin profiad fel labrwr.

Ychwanegodd Cydgysylltydd y Prosiect, Christopher Weaver: "Mae Adam wedi ffynnu yn ystod ei leoliad, ac mae ganddo agwedd gadarnhaol tuag at ei rôl a'i fywyd gwaith. Trwy ei brofiad uniongyrchol o osod briciau a labro, mae Adam 'nawr yn fwy parod i ymgymryd â'i leoliad yn y coleg i astudio gosod briciau yn y dyfodol."

Dywed Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr fod bron dau draean o gwmnïau adeiladu bach a chanolig yn cael trafferth canfod a chyflogi bricwyr medrus, sef un o'r crefftau allweddol yn y diwydiant. Fodd bynnag, er calondid, dywed y Ffederasiwn hefyd y gall bricwyr profiadol ennill cyflogau uwch na'u cyd-grefftwyr cyfatebol.

Dywedodd y Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol, Nia Collard: "Mae'n bwysig bod Morganstone yn cefnogi lleoliadau gwaith a phrentisiaethau o'r ardaloedd lle rydym yn gweithio. Mae'n galonogol gweld Adam yn mwynhau ei leoliad a chael adborth mor gadarnhaol gan ei fentoriaid. Mae hynny'n argoeli'n dda ar gyfer ei gyflogadwyedd yn y dyfodol."

Meddai Swyddog Cyswllt Cyflogaion Cam Nesa, Fran Wisby: "Mae Adam yn meithrin profiad a sgiliau gwerthfawr gyda chwmni sefydledig. Rwy'n falch iawn o Adam; mae ei ymrwymiad a'i waith caled yn amlwg. Mae Adam wedi profi bod ganddo foesege gweithio ardderchog, a bydd yn gallu trosglwyddo hynny i'w yrfa yn y dyfodol."

Data Perfformiad Rhanbarthol

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai o'r prif ffigyrau ar gyfer perfformiad gweithrediadau a ariennir gan yr ESI o fewn Rhanbarth y Bae Abertawe. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cymru'n elwa o gronfeydd yr UE [yma](#).

Dangosydd Perfformiad	Figyrau ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe
Mentrau a Gynorthwywyd ¹	2106
Mentrau a Grëwyd ²	416
Swyddi a Grëwyd ³	3682
Cyfranogwyr a Gynorthwywyd	52,285
Cyfranogwyr a Gefnogwyd I Gyflogaeth	4546
Cyfranogwyr a Enillodd Gymwysterau	20,148
Cefranogwyr Mewn Addusg / Hyfforddiant	606

Datganiad Llafar: Y diweddaraf am Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Mae'r gwaith ar y trefniadau olyniaeth ar gyfer arian yn lle arian yr UE yn dilyn Brexit yn parhau ac ar 14 Ionawr 2020, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog BREXIT [ddatganiad llafar: Diweddariad ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru](#)

Ffynhonnell: SCEC, 31/08/2019

¹ Cyfanswm y Mentrau sy'n derbyn dangosyddion cymorth anariannol o dan Raglenni Gweithredol ERDF

² Cyfanswm y dangosyddion a gefnogir gan fentrau newydd o dan Raglenni Gweithredol ERDF

³ Cyfanswm y cynnydd Cyflogaeth mewn dangosyddion mentrau â chymorth o dan Raglenni Gweithredol ERDF

Cyllid gwerth miliynau o bunnoedd wedi'i sicrhau ar gyfer y Fargen Ddinesig

Cafwyd anrheg Blwyddyn Newydd gynnar gwerth miliynau o bunnoedd i roi hwb mawr i Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae cam cyntaf cyllid y Fargen Ddinesig – gwerth £18 miliwn – wedi cael ei ryddhau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen fuddsoddi, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Mae'r cyllid wedi'i seilio ar gymeradwyo dau o brosiectau'r Fargen Ddinesig – Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau, a Chanolfan S4C Yr Egin.

Mae gwaith adeiladu bellach wedi dechrau ar arena dan do ddigidol â lle i 3,500 o bobl sydd ar safle ger yr LC yn Abertawe. Mae prosiect y Fargen Ddinesig yn Abertawe hefyd yn cynnwys pentref digidol ar Ffordd y Brenin ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio ar dechnoleg a materion digidol, yn ogystal â datblygiad pentref blychau a rhodfa arloesi ar gyfer cwmnïau newydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (SA1).

Mae cam un clwstwr digidol a chreadigol Canolfan S4C Yr Egin eisoes wedi'i gwblhau ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a bydd y cyllid bellach yn cychwyn ail gam y datblygiad.

Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, Cadeirydd Cyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe: “Dyma'r tro cyntaf i gyllid y Fargen Ddinesig gael ei sicrhau, felly mae'n garreg filltir bwysig ar gyfer rhaglen fuddsoddi a fydd yn gwneud gwahaniaeth i drigolion a busnesau ar draws de-orllewin Cymru drwy greu miloedd o swyddi o ansawdd uchel drwy nifer o brosiectau cyffrous.

“Mae'n dangos y cynnydd enfawr sy'n cael ei wneud yn barhaus gan holl bartneriaid y Fargen Ddinesig gan ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni cyn gynted â phosibl i helpu i drawsnewid economi'r Dinas-ranbarth. Mae'r prif waith adeiladu ar arena dan do ddigidol Abertawe bellach wedi dechrau, mae cam un Yr Egin yng Nghaerfyrddin wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac mae prosiect Ardal Forol Doc Penfro a fydd yn gosod de-orllewin Cymru wrth wraidd arloesedd byd-eang ym maes ynni morol wedi cael ei gyflwyno i'r ddwy Lywodraeth i'w gymeradwyo'n derfynol. Bydd £18 miliwn arall o gyllid y Fargen Ddinesig hefyd yn cael ei sicrhau erbyn diwedd Mawrth 2020, yn amodol ar gymeradwyo prosiectau ychwanegol erbyn hynny. Bwriedir rhyddhau rhagor o gyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf hefyd, yn amodol ar gynnydd o ran cyflawni.”

Dywedodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru: “Mae'r cyhoeddiad hwn yn arwydd o symud i'r cam cyflawni ac mae'n arwydd clir o hyder ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae potensial mawr ar gyfer twf economaidd gwirioneddol yn y rhanbarth drwy'r fargen uchelgeisiol a all fod o fudd i fusnesau a chymunedau lleol yn ne-orllewin Cymru. Rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru bellach wedi rhyddhau'r cyllid hwn ac rwy'n edrych ymlaen at weld rhagor o gynnydd ar y cynigion a all gynnig cyfleoedd cyffrous a newid trawsnewidiol ar gyfer yr ardal.”

Dywedodd Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Llywodraeth y DU: “Mae rhyddhau'r cyllid hwn yn dangos cryfder y diwydiannau creadigol a digidol ar draws y rhanbarth hwn, ac mae'n arwydd o'r cyfleoedd cadarnhaol sydd o'n blaenau. Mae'r ddwy Lywodraeth yn parhau i gydweithio i rymuso Dinas-ranbarth Bae Abertawe i greu swyddi o ansawdd, denu buddsoddiad pellach a chreu twf economaidd, a fydd yn cael effaith hirdymor drawsnewidiol ar yr ardal.”

Dywedodd Jake Berry AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros Bwerdy Gogledd Lloegr a Thwf Lleol: “Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn tystio i ymrwymiad y Llywodraeth i uno a chodi'r DU gyfan i lefel uwch. Bydd y buddsoddiad hwn gwerth miliynau o bunnoedd yn rhoi hwb anferth i dwf, yn creu dros 9,000 o swyddi o ansawdd uchel ac yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i'w sicrhau. Gan weithio law yn llaw â Llywodraeth leol a busnesau, byddwn yn creu cyfleoedd economaidd newydd a chyffrous i ryddhau potensial de-orllewin Cymru a'r DU gyfan.”

Mae prosiectau eraill sy'n cael eu hystyried yn fuan gan y Cyd-bwyllgor i'w cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth i'w cymeradwyo yn cynnwys datblygiad gwyddor bywyd a llesiant wedi'i ail-fodelu a glustnodwyd ar gyfer Llanelli, yn ogystal â rhaglen ddiwygiedig o brosiectau yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n canolbwyntio ar arloesi, tanwydd di-garbon a dyfodol dur.

Mae gwaith manwl ar brosiect rhanbarthol Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, hefyd yn gwneud cynnydd sylweddol.

Yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei harwain gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe, mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Digwyddiadau



Gwahoddiad I Ddigwyddiad masnach 'Cyflenwr i Prynwr'

Sir Gâr

Cae Rasio Ffos Las, Trimsaran, Sir Gâr SA17 4DE.
Dydd Iau, 6 Chwefror 2020, 10:00- 17:00

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a Elliott Boyd ar
Ejboyd@strgar.gov.uk | 01554 742535

An Invitation to Carmarthenshire 'Supplier to Buyer' trade event

Ffos Las Racecourse, Trimsaran,
Carmarthenshire SA17 4DE.
Thursday, 6 February 2020, 10:00 - 17:00

For further information please contact Elliott Boyd on
Ejboyd@carmarthenshire.gov.uk | 01554 742535

Yr Amserlen:

Ystafell Blinkers, Y Llawr Gwaelod

10:00-17:00pm Ddigwyddiad masnach 'Cyflenwr i Prynwr' yn agored i'r cyhoedd.

Ystafell Bridles, Y Llawr Cyntaf

11:00 Siaradwr: 'Bwyd a Diod yng Nghaerfyrddin 2020'

12:00 'Cynhyrchwyr a Chadwyni Cyflenwi' - Busnes yn y Dyfodol: Trafodaeth Banel/ Holi ac Ateb

14:00-16:30 Gweithdy Arloesi.

Bocsys Lletygarwch

11:00-14:00 MOT Busnes: Archebwch eich apwyntiad un i un.

15:00-17:00 Sesiynau galw haibio i gael Cyngor Busnes.

Schedule:

Blinkers Suite Ground Floor

10:00-17:00pm 'Supplier to Buyer' trade event open to the public.

Bridles Suite First Floor

11:00 Speaker 'Food and Drink in Carmarthenshire 2020'

12:00 'Producers & Supply Chains'- Future Business: Discussion Panel/ Q&A.

14:00-16:30 Innovation Workshop.

Hospitality boxes

11:00-14:00 Business MOT: Book your one-to-one appointment.

15:00-17:00 Business Advice drop in sessions.

CARMARTHENSHERE
TOURISM ASSOCIATION
CYMRITHAS
TWRISTIAETH SIR GÂR



South Wales
Chamber of
Commerce
Connect. Effect. Grow.



Cywain



0208

Archebwch eich lle [yma](#)

Rhaglen arweinyddiaeth wedi'i hariannu yn dod i Sir Benfro

Mae Arweinyddiaeth ION, prif raglen datblygu busnes Prifysgol Abertawe, yn hynod o falch o fod mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddaugleddau, i ddarparu rhaglen arweinyddiaeth a thwf busnes sydd wedi'i hariannu'n llawn ac sy'n dechrau ym mis Chwefror 2020. Dros 10 mlynedd, mae Arweinyddiaeth ION wedi helpu mwy na 1400 o arweinwyr, rheolwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau mewn dros 1000 o fusnesau i ddatblygu a gwella eu sgiliau arwain, gyda'r nod o gynyddu cynhyrchiant yn y gweithle tra'n datblygu mentrau cynaliadwy, proffidiol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Arweinyddiaeth ION ar y wefan - <https://ionleadership.co.uk/courses/leading-growth-programme-9-pembrokeshire> neu ffoniwch tîm ION ar 01792 606738.

Cronfa Fusnes Micro Bychan

This fund is supported through the Welsh Government Rural Communities Rural Development Programme 2014-2020, funded by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD), and Welsh Government.

Mae'r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) ar gael i fusnesau micro a bychan sydd â llai na 50 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.

Mae MSBF yn gronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn sector twristiaeth Cymru. Gellir ei defnyddio naill ai i greu cynnyrch newydd o safon uchel neu i uwchraddio cynnyrch presennol.

Bydd cymorth o rhwng £25,000 a £500,000 yn cael ei ystyried, er mwyn:

- creu a diogelu swyddi
- sicrhau lles a datblygiad economaidd
- sicrhau ansawdd, arloesedd a nawws am le

Mwy o wybodaeth ar gael [yma](#)



Mae cyfnod ymgeisio hyfforddiant a sgiliau Cyswllt Ffermio ar agor



Os ydych am i'ch busnes fferm berfformio ar ei orau wrth i'r diwydiant nesáu at ansicrwydd Brexit, allai hwn fod yn amser da i fuddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau datblygu personol?

Mwy o wybodaeth ar gael [yma](#)

Grant Busnes Fferm

Bydd y seithfed alwad am gynigion i fynegi diddordeb ar gyfer y Grant Busnes Fferm (GBFf) yn agor ar 2 Mawrth 2020.

Mae cymhwysedd ar gyfer GBFf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bartner yn y busnes fynychu digwyddiad 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol', a drefnir gan Farming Connect (FC).

Mwy o wybodaeth ar gael [yma](#)

Diweddariad Brexit Erasmus+

Mae telerau'r cytundeb ymadael ar 31 Ionawr 2020 yn amlinellu y bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn y rhaglenni Erasmus+ ac *European Solidarity Corps (ESC)* presennol.

O'r herwydd, y cyngor a roddir i bob prosiect Erasmus+ ac ESC presennol sydd â chontract cyflawni gweithgareddau a gyllidwyd yw parhau i wneud hynny. Dylai sefydliadau oedd yn bwriadu cyflwyno ceisiadau am gyllid hefyd barhau â'u ceisiadau yn ôl y bwriad.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,

Business Resource Centre,

Ty Parcyrhun,

Ammanford.

SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@carmarthenshire.gov.uk

